COFNODION CYFARFOD Y FFORWM CYNGOR TREF A CHYMUNED A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PENYBONT AR OGWR CF31 4WB DYDD LLUN, 15 GORFFENNAF 2019, AM 16:00

Presennol

Y Cynghorydd HJ David – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| S Aspey | SE Baldwin | JPD Blundell | N Clarke |
| P Davies | Cllr D Evans | RM Granville | E Hyde |
| C Jones | D Jones | RL Penhale-Thomas | B Sedgebeer |
| CE Smith | JH Tildesley MBE | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

N Alderton, H Bennett, MC Clarke, R Davies, S Dendy, L Desmond-Williams, P Gwilliam, Ciaron Jackson, P Jenkins, Jones, B Jones, T Lyddon, A Mckay, KL Rowlands, SG Smith, MC Voisey, W Willis a/ac RE Young

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Sian Hooper | Rheolwr Gwastraff a Strydoedd Glanach |
| Zak Shell | Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth |

179. DATGAN BUDDIANNAU

Dim.

180. CYMERADWYO'R COFNODION

PENDERFYNWYD: Cytunwyd bod cofnodion cyfarfod Fforwm y Cynghorau Tref a Chymuned, dyddiedig 26 Chwefror 2019, yn gywir.

181. CYFLWYNIAD GAN Y PRIF UWCHAROLYGYDD ALUN MORGAN O HEDDLU DE CYMRU AR BLISMONA YN Y FWRDEISTREF SIROL.

Agorodd y Cadeirydd yr eitem hon drwy gyflwyno'r Prif Uwcharolygydd Alun Morgan i'r Aelodau. Roedd y Prif Uwcharolygydd yn ymddangos gerbron y Fforwm heddiw i roi cyflwyniad llafar ar faterion plismona.

Dywedodd y byddai'n trafod rhai o'r materion a oedd yn wynebu Heddlu'r De a sut roeddent yn bwriadu ymdrin â rhai o'r problemau a byddai'n eu hamlinellu.

Rhoddodd drosolwg o'r materion dan sylw gan ddweud bod yr heddlu'n dymuno gweithio mor effeithlon â phosibl yn yr hinsawdd bresennol. Dywedodd hefyd ei bod yn bwysig i'r heddlu ddefnyddio'r adnoddau mwyaf priodol yn yr ardaloedd iawn, gan ddefnyddio data a thechnoleg i'w helpu i ddarparu'r gwasanaethau hyn.

Aeth rhagddo i ganmol y Cyngor am fod mor awyddus i weithio gyda'r heddlu i ddatrys problemau lleol fel digartrefedd, cyflenwi/camddefnyddio cyffuriau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, ac yna nododd y pum blaenoriaeth roedd yr heddlu wedi'u mabwysiadu'n ffurfiol yng nghyd-destun plismona, sef cam-drin domestig, troseddu â chyllyll, llinellau cyffuriau, trais a throseddau rhywiol difrifol eraill, yn ogystal â'r angen i atal ac ymateb i fygythiadau terfysgol ac ymosodiadau posibl gan eithafwyr.

Yna rhoddodd y Prif Uwcharolygydd esboniad manylach o'r hyn yw 'llinell gyffuriau', sef sefyllfa sy'n codi pan fydd gangiau cyffuriau o'r dinasoedd mawr yn ehangu eu busnes i drefi llai, gan ddefnyddio trais i yrru'r delwyr cyffuriau llai o'r dref a manteisio ar bobl agored i niwed i werthu cyffuriau. Bydd y delwyr hyn hefyd yn defnyddio llinellau ffonau symudol penodol, y 'llinellau cyffuriau', i brynu a gwerthu cyffuriau.

Drwy ganolbwyntio mwy ar y pum blaenoriaeth hyn, gallai'r heddlu weithio'n fwy cydlynol nag erioed o'r blaen, gan ddefnyddio adnoddau mwy arbenigol i frwydro yn erbyn y problemau dan sylw.

Ychwanegodd fod proses ar waith yn awr yn yr heddlu i greu mwy o gyfleoedd i benodi swyddogion prawf newydd ac i swyddogion drosglwyddo o un heddlu i'r llall, ac mae cynllun mynediad uniongyrchol hefyd ar waith ar gyfer ymchwilwyr.

Nod yr holl newidiadau hyn yw galluogi'r heddlu i ymateb yn fwy effeithiol i'r galw cynyddol i ymdrin ag achosion mwy difrifol. Byddai'r swyddogion ychwanegol yn cael eu defnyddio i ymateb i achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol dros fisoedd yr haf, sy'n cynyddu pan fydd y tywydd yn cynhesu.

Gofynnodd un o'r Aelodau a oedd unrhyw gynigion i leihau nifer y gorsafoedd heddlu ac, yn benodol, gorsaf Heddlu Porthcawl.

Cadarnhaodd y Prif Uwcharolygydd fod ystâd yr heddlu'n cael ei hadolygu'n barhaus ond nad oedd unrhyw bryderon ynghylch yr orsaf hon ar hyn o bryd. Ychwanegodd y gallai'r syniad o uno gorsafoedd, a fydd yn digwydd yn fuan yn Llanilltud Fawr, apelio at Borthcawl, ond byddai'n rhaid sicrhau na fyddai adolygiad o'r fath yn gwanhau'r gwasanaeth plismona yn yr ardal. Dywedodd hefyd fod y model ar gyfer Llanilltud Fawr yn seiliedig ar bartneriaeth rhwng yr heddlu, y gwasanaeth tân, ambiwlans a gwylwyr y glannau.

Yna, trafododd y Prif Uwcharolygydd Morgan Ymgyrch y Ddraig Goch yn erbyn cyffuriau Dosbarth A. Trefnwyd i aelod o'r heddlu cudd fod ar strydoedd y Barri a Phen-y-bont ar Ogwr rhwng mis Gorffennaf a mis Hydref 2018 er mwyn casglu gwybodaeth a thystiolaeth ac arestio'r drwgweithredwyr. Bu'n ymgyrch lwyddiannus iawn; cafodd 70 eu harestio ac mae nifer fawr o'r rhain wedi'u carcharu.

Lleihau'r broblem, yn hytrach na'i datrys mae ymgyrchoedd o'r fath, fodd bynnag, ac anogodd pawb a oedd yn bresennol, ac etholwyr y Fwrdeistref Sirol, i roi gwybod i'r heddlu os oedd ganddynt unrhyw amheuaeth o gwbl fod rhywun yn cyflenwi/defnyddio cyffuriau yn eu hardal.

Yna, rhoddodd y Prif Uwcharolydydd drosolwg o'r Adran Plismona Ffyrdd gan ddweud y byddai beiciau modur yr heddlu, yn ogystal â cheir, yn cael eu defnyddio'n amlach, a byddai system rota fwy modern yn cael ei datblygu i ateb y galw.

Ychwanegodd fod yr heddiw hefyd yn ymwneud yn gynyddol â rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, i helpu'r rhai a oedd â phroblemau iechyd meddwl, yn ogystal â phlant sy'n derbyn gofal. Gallai'r problemau'n ymwneud â'r rhain fod yn ddifrifol ac roedd elfen o risg ynghlwm wrthynt a oedd wedi symud dros amser o'r asiantaeth a oedd yn ymdrin â'r achosion yn wreiddiol, i'r heddlu. Byddai angen adolygu hyn ymhellach hefyd.

Gan droi at broblemau tymhorol mwy cyffredinol, roedd cynlluniau ar waith i ddileu, neu leihau, ymddygiad gwrthgymdeithasol ym Mae Trecco, y ffair a Newton Green a lleoedd trafferthus o'r fath dros yr haf.

Sicrhaodd y rhai a oedd yn bresennol, fod yr heddlu eisoes yn cynllunio ar gyfer cyngerdd Elvis eleni, ac i reoli ymddygiad gwrthgymdeithasol cysylltiedig â'r digwyddiad. Roedd yn pryderu nad oedd yr heddlu'n cael eu talu am wasanaethau plismona cysylltiedig â'r digwyddiad, a oedd yn costio degau o filoedd o bunnoedd. Roedd un lleoliad, fodd bynnag, wedi cynnig cymorth ariannol i roi cynlluniau partneriaeth ar waith, fel cynlluniau brysbennu'r gwasanaeth ambiwlans a phlant coll.

Soniodd hefyd am y Gynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg Digartrefedd ym Mhen-y-bont ar Ogwr, lle'r oedd pobl agored i niwed yn cael cymorth, yn enwedig yn ystod y misoedd oeraf pan oeddent ar drugaredd y tywydd gwael. Ychwanegodd, fodd bynnag, y dylai partneriaethau sefydlu mwy o gyfleusterau a allai gynnig lle mwy diogel i'r digartref gysgodi yn hytrach na chysgu ar y stryd.

Rhoddodd drosolwg o broblemau mwy lleol, fel camddefnyddio cyffuriau a pharcio yng nghanol y dref Porthcawl, cyn iddo gael ei herio ymhellach am bŵer Swyddogion Gorfodi'r Cyngor i gynorthwyo â phroblemau lleol fel parcio a baw cŵn. Esboniwyd bod gan Swyddogion y Cyngor y pŵer i ddirwyo pobl am barcio'n anghyfreithlon drwy roi Hysbysiadau Cosb iddynt, a byddai hynny o gymorth yn lleol. Roedd yn anoddach, fodd bynnag, dirwyo perchnogion cŵn am beidio â chlirio baw ci gan fod yn rhaid i rywun fod yn dyst i'r drosedd cyn y gellir rhoi Hysbysiad a dirwyo'r perchennog.

Yna, cyfeiriodd y Prif Uwcharolydd Morgan at Ymgyrch Sceptre. Roedd yn mynd rhagddo ers cryn amser ac, ar y dechrau, y nod oedd lleihau troseddau cysylltiedig â chyllyll. Roedd yn bwysig, meddai, cydnabod nad oedd modd datrys y broblem dim ond drwy arestio pobl. Roedd yn well ganddo ef weithio ar raglen ymgysylltu lawn, mewn partneriaeth â'r ysgolion, y gwasanaeth ieuenctid ac unrhyw asiantaeth arall i atgyfnerthu'r neges 'nad yw cario'n cŵl.'

Gofynnodd un o'r Aelodau i'r Swyddog a oedd yn teimlo bod gwasanaeth 101 yr Heddlu'n annigonol o ran gallu'r heddlu i ymateb yn ystyrlon, ac yn gyflym, i alwadau o'r fath gan y cyhoedd.

Dywedodd y Prif Uwcharolygydd Morgan fod De Cymru yn parhau i berfformio'n well na'r cyfartaledd a bod tua 86% o'r galwadau'n cael eu hateb o fewn yr amseroedd gofynnol. Ychwanegodd fod y mater hwn braidd yn niwlog oherwydd bod rhai'n ei chael yn anodd gwahaniaethu rhwng galwadau 101 a 999, a rhoddodd enghreifftiau o'r modd roedd pobl yn camddefnyddio'r system.

Gofynnodd un o'r Aelodau a allai Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSO) gyflwyno Hysbysiadau Cosb Benodedig.

Atebodd y Prif Uwcharolygydd Morgan fod pwerau PSCO yn gyfyngedig ac nid oeddent yn cynnwys y pŵer i roi Hysbysiadau Cosb Benodedig am wahanol droseddau, gan nad oedd ganddynt bwerau i gadw'r cyhoedd yn gaeth.

Daeth y cyflwyniad gan yr heddlu i ben a diolchodd yr Arweinydd i'r Prif Uwcharolygydd gan ddweud bod yr Aelodau wedi cael cyflwyniad diddorol ac addysgiadol.

PENDERFYNWYD: Y byddai Fforwm y Cynghorau Tref a Chymuned yn nodi'r cyflwyniad llafar uchod.

182. HYNT Y RHAGLEN TEITHIO LLESOL YM MHEN-Y-BONT AR OGWR

Cyflwynodd Arweinydd y Tîm Polisi, Datblygu a Thrafnidiaeth adroddiad. Diben hwn oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Fforwm am Deithio Llesol ym Mhen-y-bont ar

Ogwr. Rhoddwyd y wybodaeth hon i Glercod y Cynghorau Tref a Chymuned ar 28 Mehefin 2019.

Esboniodd y cefndir drwy ddweud bod Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 wedi dod i rym ym mis Medi 2014 ac, ers hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn rhoi arian grant i Gynghorau Cymru i'w helpu i weithredu'r rhaglenni teithio llesol a nodwyd ym Mapiau Rhwydwaith Integredig y cynghorau unigol. Bob blwyddyn, caiff cynghorau eu gwahodd i gyflwyno cynigion i hyrwyddo teithio llesol gan gynnwys llwybrau sy'n cyd-fynd â'r cynllun llwybrau diogel mewn cymunedau/i ysgolion. Llywodraeth Cymru sy'n ariannu'r cynllun hwn hefyd. Pan fo hynny'n briodol ac yn berthnasol, mae'r Cyngor hefyd yn gweithredu rhannau o'r rhwydwaith teithio llesol drwy gyfraniadau gan ddatblygwyr.

Yna, aeth Arweinydd y Tîm Polisi, Datblygu a Thrafnidiaeth rhagddo i roi cyflwyniad, a'r prif ddiben oedd rhoi gwybod i'r Cynghorwyr am hynt y gwaith ac esbonio'r prosesau mae Swyddogion y Cyngor yn eu dilyn wrth benderfynau ar y cynlluniau a'u hasesu.

Roedd y cyflwyniad yn ymdrin â'r prif bwyntiau a'r themâu a ganlyn:-

Prif ddiben y Ddeddf oedd sicrhau bod pobl yn dewis cerdded a beicio o le i le dros bellteroedd byr/byrrach.

Cyflwyno map rhwydwaith Teithio Llesol i Lywodraeth Cymru ei gymeradwyo ym mis Hydref 2017. Mae'r rhwydwaith yn cynnwys:-

- Y mapiau rhwydwaith presennol (ERM)
- Map Rhwydwaith Integredig (INM)
- Map a fydd ar gael i'r cyhoedd

**Hynt y gwaith ym Mhen-y-bont ar Ogwr**

Mae Teithio Llesol yn integreiddio â pholisïau trafnidiaeth ehangach:-

1. Cynllun Datblygu Lleol (CDLl)
2. Cynllun Trafnidiaeth Lleol (CTLl)

Gwella ac ariannu cynlluniau i wella'r seilwaith teithio llesol

- Cynlluniau i'w cynnwys yn y Map Rhwydwaith Integredig a'r Cynllun Trafnidiaeth Lleol
- Cynlluniau sy'n gysylltiedig ac yn cyd-fynd â llwybrau diogel mewn cymunedau/ i ysgolion
- Cynlluniau i'w cynnwys yn y cynlluniau teithio i ysgolion neu gynlluniau mynediad cymunedol
- Cynlluniau i'w datblygu a'u hariannu drwy'r broses defnyddio tir fel rhan o :-

1. Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif
2. Datblygiadau preswyl
3. Datblygiadau'r GIG/Ymddiriedolaeth
4. Adfywio Canol Trefi
5. Datblygu seilwaith trafnidiaeth.

Yna, cafwyd gwybodaeth am gyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016/17 – 2018/19, a'r cyllid ar gyfer 2019/20:-

| Programme | Scheme | Grant (£'000) |
|---|---|---|
| Local Transport Fund | Penprysg Road Bridge | 240 |
| | A4063 Sarn – Maesteg | 50 |
| | Bridgend to Coychurch | 750 |
| Sub Total | | 1,040 |
| Local Transport Network Fund | Bus Corridors | 150 |
| Safe Routes | Coity Higher | 218.3 |
| | Newton Ph. 2 | 243 |
| Sub Total | | 461.3 |
| Active Travel Fund | Core development funding | 316 |
| | Brackla to Bridgend | 717 |
| | Pencoed to Technology Park | 898 |
| Sub Total | | 1,931 |
| Grand Total | | **3,582.30** |

**Nodau llesiant Teithio Llesol yw creu Cymru:**

- lewyrchus
- cydnerth
- iach
- mwy cydradd
- cydlynol
- sydd â diwylliant bywiog a
- chyfrifoldeb byd-eang

**Hyrwyddo llwybrau Teithio Llesol drwy:-**

Gynlluniau hirdymor e.e. datblygu defnydd tir;
Atal e.e. lleihau dibyniaeth ar geir, gwersi beicio mewn ysgolion, cynlluniau beicio i'r gwaith yn y gweithle;
Integreiddio e.e. defnydd tir a defnyddio mwy nag un dull o deithio;
Cydweithredu e.e. cymunedau, ysgolion etc;
Cyfranogiad e.e. defnyddwyr trafnidiaeth, cerddwyr, beicwyr etc

**Teithio Llesol a'r broses gynllunio**

Nod y broses o gynllunio datblygiadau yw:

1. Integreiddio a chydlynu cynlluniau defnydd tir a thrafnidiaeth
2. Hygyrchedd i bawb (dewis ehangach)
3. Lleihau'r angen i deithio
4. Blaenoriaethu teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus
5. Cefnogi cerbydau ag allyriadau eithriadol o isel (cerbydau ULEV)

Mae'r broses rheoli datblygiadau'n gyfrifol am:

- Ddyluniad a chynllun strydoedd
  (Llawlyfr strydoedd)
  (Canllaw ar ddylunio teithio llesol)
  (Egwyddorion dylunio trefol eraill)
- Asesiadau trafnidiaeth
- Lleihau effaith trafnidiaeth
- Yr egwyddor mai'r 'llygrwr sy'n talu'

Yna, soniodd Arweinydd y Tîm Polisi, Datblygu a Thrafnidiaeth am y datblygiadau defnydd tir sydd wedi elwa ar gyfraniadau gan ddatblygwyr ar gyfer cynlluniau teithio llesol rhwng 2014 a 2018.

Gan mai hwn oedd diwedd y cyflwyniad, diolchodd yr Arweinydd (a'r Cadeirydd) i'r Swyddog am ei gyflwyniad.

Dywedodd Aelod o Gyngor Cymuned Coety Uchaf ei fod wedi'i siomi ynglŷn â chais Cyngor Cymuned Coety Uchaf. Cafodd y cais gwreiddiol ei wrthod a phan gyflwynwyd cais arall am gynllun Llwybrau Diogel i'r Ysgol, ni chaswant yr holl arian grant roeddent yn credu roedd ganddynt hawl iddo. Ychwanegodd Aelod o Gyngor Cymuned Llangrallo i'w cais hwythau am lwybr beicio o Heol-y-Cyw i ardaloedd cyfagos fel Pencoed gael ei wrthod. Roedd yn arbennig o siomedig gan nad oedd fawr ddim siopau yn ardal Heol-y-Cyw.

Dywedodd Arweinydd y Tîm Polisi, Datblygu a Thrafnidiaeth fod yn rhaid i'r ceisiadau fodloni rhai meini prawf penodol i fod yn llwyddiannus. Roedd hyn yn dibynnu at gynllun datblygiadau tai; meini prawf defnyddio tir (yn unol â'r Cynllun Datblygu Lleol). Roedd hefyd angen sicrhau mynediad i draffig at ddibenion gwasanaethu datblygiadau. Byddai Grŵp Rhwydwaith wedyn yn ystyried ffiniau anheddiadau a oedd yn gwahanu ac yn uno cymunedau, er mwyn gweld a fyddai'n bosibl cyflwyno llwybrau beiciau a Llwybrau Diogel i'r Ysgol yn yr ardal. Cyn rhyddhau'r cyllid llawn, roedd angen cyflwyno Achos Busnes i sicrhau Llywodraeth Cymru y byddai'r cyhoedd a phlant ysgol etc. yn defnyddio llwybrau tebyg i'r rhai a nodir uchod.

Wrth ymateb i ymholiadau'r ddau Aelod uchod, ychwanegodd bod ceisiadau'r ddau Gyngor Cymuned wedi'u llesteirio gan broblemau'n ymwneud â pherchnogaeth/defnydd tir mewn perthynas â'r darnau o dir roedd y llwybrau swyddogol yn mynd drostynt neu drwyddynt.

At hyn, dywedodd fod nifer fawr o gynigion wedi dod i law yn ardal Coety Uchaf ar gyfer cynlluniau mannau croesi. Gofynnodd i Gyngor Cymuned Coety Uchaf restru'r rhain yn nhrefn blaenoriaeth a'i hanfon at y Pwyllgor gan nad oedd digon o arian i fwrw ymlaen â rhestr hirfaith mewn un ardal benodol o'r Fwrdeistref Sirol.

Daeth yr Arweinydd â'r drafodaeth i ben ar ôl yr eitem hon gan ddweud y byddai 500 o dai ychwanegol, yn ôl yr amcangyfrifon, yn cael eu hadeiladu bob blwyddyn mewn ardaloedd gwahanol o'r Fwrdeistref Sirol, a hynny o ganlyniad i'r datblygiadau tai newydd a fyddai'n cael eu codi. Bydd cynlluniau Teithio Llesol, felly, yn sicr o barhau cyhyd ag y bo'r cyllid gan Lywodraeth Cymru yn parhau. Byddai'r dull hwn o deithio hefyd yn helpu i leihau'r defnydd o gerbydau modur a'r llygredd a gaiff ei ryddhau i'r atmosffer oherwydd y dull hwn o deithio.

PENDERFYNWYD: Nodi cynnwys yr adroddiad a'r cyflwyniad cysylltiedig.

183. GLANHAU STRYDOEDD

PENDERFYNWYD: O dan gyfarwyddyd y Cadeirydd, cytunodd Aelodau'r Fforwm i ohirio'r eitem hon tan y cyfarfod nesaf.

184. EITEMAU BRYS

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 18:27